

CLWB MYNYDDA CYMRU
CYFARFOD BLYNYDDOL 2012– 6:00 y h., 17 TACHWEDD, 2012
Gwesty'r *Royal Goat* Beddgelert

1. Croeso/Cadeirydd

Yn absenoldeb Arwel Roberts, y Cadeirydd, croesawodd yr Ysgrifennydd Cyffredinol yr aelodau i'r Cyfarfod Blynyddol. Oherwydd nad oedd Arwel yn gallu bod yn bresennol, a'l dymor dwy flynedd fel cadeirydd yn dod i ben, cytunwyd i newid trefn yr agenda ac ethol cadeirydd newydd ar ddechrau'r cyfarfod.

Cytunwyd i ethol Rhys Dafis fel Cadeirydd y Clwb am y cyfnod 2013 a 2014.

Diolchodd Rhys i'r aelodau am ymddiried ynndo i weithredu fel cadeirydd y Clwb am y ddwy flynedd nesaf. Mynegodd ei falchder o weld bod y Clwb dal yn weithgar, gyda theithiau yn cael eu trefnu yn y de a'r gogledd, penwythnosau mewn gwahanol ardaloedd o Gymru a theithiau i lefydd pellach, dringo, a hefyd bod gweithgareddau beicio wedi dechrau ymddangos ar y rhaglen. Teimlai bod cynnig amrediad o weithgareddau yn y maes awyr agored yn un o gryfderau'r Clwb

Yn ei gyfnod fel cadeirydd hoffai weld sylw yn cael ei roi i geisio denu mwy o bobl ifanc i ymaelodi â'r Clwb. Teimlai bryder bod cyfartaledd oedran yr aelodaeth yn mynd yn hŷn a'r effaith y byddai hyn yn ei gael ar ddyfodol y Clwb

Roedd arno hefyd eisiau edrych ar safle we'r clwb. Mae'r safle yn llawn o wybodaeth ddefnyddiol ac yn cael ei defnyddio yn rheolaidd gan aelodau. Fodd bynnag, fel rhan o'r ymdrech i geisio denu pobl ifanc i ymaelodi â'r clwb, roedd angen ystyried os dylid ail-edrych ar ddyluniad a chynnwys y safle. Byddai yn trafod hyn gydag Ysgrifennydd y We a'r pwyllgor

Gan ei fod newydd ei benodi yn gadeirydd ac ysgrifennydd gweithgareddau newydd yn cychwyn ar ei swydd, byddant yn edrych ar y ffordd y llunir y rhaglen weithgareddau.

Ar ran yr aelodau diolchodd Rhys i Arwel am ei waith cydwybodol fel cadeirydd dros y ddwy flynedd diwethaf a mynegodd ei werthfawrogiad yn arbennig am ei waith yn hybu gweithgareddau dringo. Yn anffodus nid oedd Arwel yn gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod ond dywedodd Rhys y cyflwynir cydnabyddiaeth iddo maes o law i ddiolch iddo am ei wasanaeth.

2. Ymddiheuriadau : 2 - Arwel Roberts, Iolo ap Gwyn

3. Cofnodion y Cyfarfod Blynyddol 2011

Derbyniwyd cofnodion Cyfarfod Blynyddol y Clwb a gynhaliwyd ar 29ain Hydref 2011 yng Ngwesty'r Royal Ship , Dolgellau fel rhai cywir

4. Adroddiad yr Ysgrifennydd Cyffredinol ac Aelodaeth.

Adroddodd fod y pwyllgor wedi cwrdd dair gwaith eleni, yn ystod penwythnosau'r Clwb yn Rhyd Ddu (Ionawr) a'r Bannau (Medi) ac ym Mhlas y Brenin ym mis Mai. Un o'r prif faterion tan sylw'r pwyllgor yn ystod y flwyddyn oedd datblygu'r fforwm i aelodau

Cafwyd cyflwyniad gan Siân Shakespear ar y fforwm a gafodd ei chreu ar gyfer yr aelodau. Roedd 70 o aelodau wedi cofrestru ar y fforwm bellach. Amlinellodd Sian y ffordd yr oedd y fforwm wedi ei gosod ac aeth dros y drefn o sut i gofrestru i gael mynediad a sut i'w defnyddio. Dywedodd y gallai unrhyw un oedd yn cael trafferth gysylltu â hi am gymorth.

Diolchwyd i Sian gan y Cadeirydd am ei holl ymdrechion i sefydlu'r fforwm

5. Adroddiad yr Ysgrifennydd Gweithgareddau.

Cafwyd adroddiad am weithgareddau'r clwb yn ystod 2012.

Ers y Cyfarfod Blynyddol diwetha yn Nolgellau fe drefnwyd tua 60 niwrnod o weithgareddau dyddiol, teithiau yn y Gogledd a'r De, teithiau Mercher yn y Gogledd, a sesiynnau dringo a sgramblo a beicio mynydd. Yn ychwanegol fe gafwyd sawl gweithgaredd preswyl a ambell i daith dramor:

Penwythnos breswyl yng **Nghanolfan Rhyd Ddu** fis Ionawr diwethaf – Cwrs Ymarfer Sgiliau Gaeaf – diolch i Iolo ac Arwel am drefnu.

Wythnos arferol y Clwb yn **Yr Alban** ym mis Chwefror – y tro yma yn Milton Morenish ar lan Loch Tay ger Killin – diolch i Maldwyn am drefnu.

Dwy noson gymdeithasol – un yn Y Caban ym mis Mawrth, a'r llall yn Y Tanerdy, Llanrwst – diolch i Sian Shakespear am drefnu'r ddwy noson.

Penwythnos Y Rhinogydd – ddechrau Mehefin – diolch i Eirlys a Iolyn am drefnu unwaith eto.

Y 14eg Copa – ailgodwyd yr hirdaith yma ond doedd y tywydd ddim o'u plaid

Diolch i Rhys Dafis am drefnu.

Penwythnos Bannau Brycheiniog – aros yn Hostel Dan y Wenallt – diolch i Guto am drefnu (a'r daith feics hir!).

Ddechrau mis Hydref fe drefnodd Raymond benwythnos yn Hostel Yr Hen Ysgol yn Nhrefin – **Sir Benfro** dau ddiwrnod tawel a braf – Pen Gaer a Phwll Deri ar y Sadwrn a Phenrhyn Dewi ar y Sul.

Yn ddiweddarach yn y mis trefnwyd **Cwrs Cymorth Cyntaf** yng Nghanolfan Rhyd Ddu gyda 11 yn mynychu'r cwrs dau ddiwrnod – pawb wedi mwynhau – diolch i John Parry am drefnu.

Mae'r **criw dringo** yn cyfarfod yn rheolaidd yn y Gogledd – diolch i Arwel, Dilwyn a Jeremy am drefnu.

Taith Nepal – Tachwedd / Rhagfyr y llynedd – yr hanes a'r lluniau ar y wefan – diolch i Morfudd a John Parry am drefnu.

Fe drefnodd Elen Huws a chriw bach dethol – John Parry eto yn eu mysg – daith i ardal y **Queryas yn Ffrainc** yn ystod mis Gorffennaf;

Diolchodd Maldwyn i'r aelodau hynny a oedd yn gwneud y trefniadau cydgordio ac arwain gweithgareddau'r clwb yn y De a'r Gogledd ac i'w gyd swyddogion ar y pwyllgor am eu cydweithrediad. Diolchodd hefyd i'r aelodau y clwb am eu hamynedd a'u cefnogaeth dros y blynyddoedd

Cyfeiriodd Rhys at y ffaith fod tymor Maldwyn fel Ysgrifennydd gweithgareddau yn dod i ben ac ar ran yr aelodau mynegodd werthfawrogiad o'i waith trylwyr dros y blynyddoedd. Fel arwydd o'r gwerthfawrogiad hyn cyflwynwyd llun iddo

6. Adroddiad Ysgrifennydd y Wefan.

Bu defnydd cyson o'r tudalennau gwe dros y flwyddyn. Derbyniwyd adroddiadau a lluniau am y rhan fwyaf o'r gweithgareddau. Diolch i bawb yrrodd ddeunydd i mewn. Mae llwyddiant y wefan yn llwyr ddibynnol ar gyfraniadau'r aelodau. Gwneir pob ymdrech i ddiweddarau cynnwys y wefan o leiaf unwaith yr wythnos.

Yn ystod y flwyddyn cafwyd 7,153 o ymweliadau â'r safle ac roedd yn ddiddorol gweld bod y defnydd o ffonau a phadiau i gael mynediad i'r safle yn cynyddu. Gwelwyd hefyd fod y defnydd o dudalen y Clwb ar Facebook yn ffordd hwylus o ledaenu neges am fodolaeth y clwb ar y we.

Anogwyd aelodau i barhau i anfon adroddiadau cyson ar gyfer y wefan, gan fod hwn yn gyfrwng defnyddiol iawn i hysbysu'r byd am weithgareddau'r Clwb ac i ddenu rhagor o aelodau.

7. Adroddiad y Trysorydd.

Adroddwyd bod 320 o aelodau. Cyflwynwyd adroddiad ariannol ar gyfer 2011 - 2012 a oedd yna dangos bod gan y clwb £7,988.82 mewn llaw.

Derbyniwyd yr adroddiad yn unfrydol.

8. Swyddogion y Clwb

Etholwyd y swyddogion canlynol:

Trysorydd : Gareth E Roberts

Ysgrifennydd Cyffredinol ac Aelodaeth : Iolo Roberts

Ysgrifennydd Gweithgareddau : Eryl Owain

Ysgrifennydd y Wefan : Iolo ap Gwynn

9. Aelodaeth y Pwyllgor ar gyfer 2013

Adroddodd yr Ysgrifennydd Cyffredinol ac Aelodaeth y byddai'r canlynol yn gwasanaethu ar y pwyllgor yn 2013

Anita Daimond

Dewi Hughes

Sioned Ll Jones

John Parry

Richard Roberts

Sian Shakespear

Mark W Williams

10. Is-gadeirydd y Clwb

Adroddodd yr Ysgrifennydd Cyffredinol ac Aelodaeth na chynigiwyd unrhyw enw i'w ystyried fel Is-gadeirydd y clwb

Penderfynwyd awdurdodi'r pwyllgor i dderbyn unrhyw enwebiad dilys a dderbynnir i wasanaethu fel Is-gadeirydd am y ddwy flynedd nesaf

11. Archwilydd

Penodwyd Raymond Griffiths fel **Archwilydd**.

12. Ni ddaeth unrhyw gynnig ffurfiol i law.

13. Trafodaeth Agored

Cafwyd trafodaeth am sut i ledaenu gwybodaeth am y Clwb fel y gellir denu aelodau ieuengach. Gwnaed nifer o awgrymiadau o'r llawr gan gynnwys cael taflenni gwybodaeth y gellid eu dosbarthu mewn colegau ac ati, creu posteri a.y.b. Nododd y Cadeirydd y byddai hyn yn rhywbeth y byddai'n gofyn i'r pwyllgor roi sylw iddo

Cyfeiriodd Siân at ddarlith flynyddol y Clwb a fydd yn cael ei chynnal am y tro cyntaf y flwyddyn nesaf yn Eisteddfod Genedlaethol Dinbych. John Parry fydd y darlithydd ym Mhabell y Cymdeithasau ar y dydd Mercher a gofynnir i'r aelodau hynny fydd yn yr Eisteddfod i'w chefnogi.

Yn dilyn y cinio cafwyd sioe sleidiau gan Aneurin o'i ymweliadau ef a Dilys â dau begwn y byd, yr Arctig a'r Antartig. Roedd canmoliaeth fawr i safon y lluniau a'r cyflwyniad a phawb wedi eu syfrdanu â rhai o'r golygfeydd a digwyddiadau yr oedd wedi llwyddo i'w dal hefo'i gamera.

I gloi'r noson cafwyd cwis gan Siân a oedd wedi ei baratoi gan Arwel

Diolchodd Rhys i Aneurin a Sian am eu cyfraniadau.